Cyngor Caerdydd

Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb

Adroddiad Blynyddol 2019-20

Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau

This document is available in English. Other formats are available on request.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill ar gael ar gais.

Cynnwys

Cyflwyniad	**4**
Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020	**5**
Amcan Cydraddoldeb 1: Cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol a phlethu cydraddoldeb i bopeth rydym yn ei wneud	**6**
Amcan Cydraddoldeb 2: Cynorthwyo mynediad ehangach at wybodaeth ac amgylcheddau'r Cyngor a chyfranogiad mewn gwasanaethau'r Cyngor	**7**
Amcan Cydraddoldeb 3: Cynorthwyo ymgynghoriad dinasyddion ehangach ac ymgysylltu â'r Cyngor a'i benderfyniadau	**9**
Amcan Cydraddoldeb 4: Cynorthwyo pobl i herio triniaeth annheg	**11**
Amcan Cydraddoldeb 5: Cynorthwyo'r rhai a allai wynebu rhwystrau rhag cyflawni eu potensial	**12**
Amcan Cydraddoldeb 6: Mynd i'r afael â bylchau cyflog ein gweithlu sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig	**15**
Amcan Cydraddoldeb 7: Meithrin cymunedau cryf a chydlynol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu dathlu amrywiaeth Caerdydd	**17**
Atodiad 1 Adroddiad Amrywiaeth Gweithwyr 2019	**20**

Rhagair gan yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Fel deiliad portffolio Cydraddoldeb o fewn Cyngor Caerdydd, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol eleni ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Caerdydd a'n Hamcanion Cydraddoldeb, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Dyma'r 4ydd Adroddiad Blynyddol ar ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hymrwymiad a'n hamcanion yn y maes hwn, ond nid yw'n sefyll ar ei ben ei hun, mae'n cysylltu'n agos â'n gweledigaeth gyffredinol ar gyfer Caerdydd decach a mwy cyfartal, fel y nodir yn ein strategaeth Uchelgais Prifddinas.

Yn ystod 2019-20, parhaodd Cyngor Caerdydd â'i waith strategol i hyrwyddo cyfle cyfartal yn wyneb y galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus o safon, pwysau llymder parhaus, a gwaith i baratoi am ganlyniadau'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol eleni yn dangos y cynnydd parhaus rydym yn ei wneud yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb a nodwyd gennym yn 2016. O'n hymdrechion i gael pobl ifanc i mewn i gyflogaeth a hyfforddiant, adolygu ein harferion fel cyflogwr mawr i wella cynrychiolaeth yn ein gweithlu, i gyfranogiad ein dinas yng nghynllun ailsefydlu ffoaduriaid y Swyddfa Gartref, mae ein hymrwymiad i greu dinas gynhwysol, groesawgar ac agored yn glir.

Edrychaf ymlaen at barhau â'r gwaith pwysig hwn yn y flwyddyn i ddod ac at ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 ymlaen mewn partneriaeth â'n cymunedau a'n partneriaid ledled y ddinas.

Y Cyng. Chris Weaver

Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2016 cyhoeddodd Cyngor Caerdydd ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a oedd yn nodi 7 Amcan Cydraddoldeb y byddai'r awdurdod yn ei fesur ei hun yn eu herbyn dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr amcanion yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd trwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol.

Yn unol â'r dyletswyddau penodol i Gymru a nodir yn Neddf Cydraddoldeb (2010), mae angen i Awdurdodau Lleol Iunio Adroddiad Blynyddol a'i gyhoeddi o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r adroddiadau hyn yn amlinellu'r cynnydd y mae'r awdurdod wedi'i wneud, dros gyfnod o 12 mis, yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn ogystal â rhoi'r crynodeb hwn, mae'r adroddiad yn cyflwyno data monitro cydraddoldeb ar gyfer gweithwyr Cyngor Caerdydd gan ein galluogi i fesur i ba raddau rydym yn cynrychioli'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb, a ddatblygwyd o ganlyniad i raglen ymgynghori ac ymgysylltu â thrigolion o grwpiau nodweddion gwarchodedig, er mwyn sicrhau bod eu profiadau'n llywio ein blaenoriaethau ac yn llywio'r hyn a wnawn fel cyngor, wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Yr Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2016-2020 yw:

1. Cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol a phlethu cydraddoldeb i bopeth rydym yn ei wneud

2. Cynorthwyo mynediad ehangach at wybodaeth ac amgylcheddau'r Cyngor a chyfranogiad mewn gwasanaethau'r Cyngor

3. Cynorthwyo ymgynghoriad dinasyddion ehangach ac ymgysylltu â'r Cyngor a'i benderfyniadau

4. Cynorthwyo pobl i herio triniaeth annheg

5. Cynorthwyo'r rhai a allai wynebu rhwystrau rhag cyflawni eu potensial

6. Mynd i'r afael â bylchau cyflog ein gweithlu sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig

7. Meithrin cymunedau cryf a chydlynol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu dathlu amrywiaeth Caerdydd.

Cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion yn 2019-20

Amcan 1 - Cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol

Eleni rydym wedi gwneud y canlynol....

- Cynnal Seminar Caerdydd - Dinas Deg i lywio'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant newydd ar gyfer 2020-2024

- Cynnal ymgynghoriad helaeth gyda thrigolion, staff a grwpiau nodweddion gwarchodedig i lywio cyfeiriad a manylion ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant newydd.

- Datblygu amrywiaeth o becynnau hyfforddiant cydraddoldeb ac wedi sicrhau bod y rhain ar gael i weithwyr; roedd hyn yn cynnwys Gweithdy Hunaniaeth Rhywedd a Chyfeiriadedd Rhywiol a ddatblygwyd gyda Stonewall a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn

- Hyrwyddo ein Polisi Gofalwyr a chyflwyno Pasbort Gofalwr i weithwyr

- Hyrwyddo ein Polisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a sicrhau bod y rhain ar gael i bob gweithiwr

- Datblygu Canllaw Pontio yn y Gwaith i reolwyr a gweithwyr

- Datblygu modiwl eDdysgu ar Ragfarn Ddiarwybod a ddaeth yn fodiwl gorfodol i ategu hyfforddiant Panel Recriwtio a Dethol i weithwyr

- Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ein cynigion arbed a thyfu.

- Creu Adolygiad Cydraddoldeb blynyddol (gan gynnwys data monitro gweithwyr).

Amcan 2 - Cynorthwyo mynediad ehangach at wybodaeth ac amgylcheddau'r Cyngor a chyfranogiad mewn gwasanaethau'r Cyngor

Eleni rydym wedi gwneud y canlynol....

- Darparu gwasanaethau'r cyngor mewn Hybiau cymunedol, gan alluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael gafael ar gyngor a chymorth wedi'u teilwra i fodloni anghenion y gymuned leol. Oherwydd ein rhaglen ehangu barhaus, mae Hyb Ieuenctid Creadigol Butetown a'r siop un stop cam-drin domestig newydd yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd bellach yn barod i'w defnyddio.

- Diweddaru gwefan Awyr Agored Caerdydd i gynnwys gwybodaeth am barciau a mannau gwyrdd (gan gynnwys gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn).

- Gweithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gyda gwybodaeth reolaidd yn cael ei dosbarthu i weithwyr ym mhob cyfarwyddiaeth.

- Gwneud addasiadau i ysgolion i sicrhau amgylcheddau hygyrch ar gyfer disgyblion a staff anabl.

- Rhoi grantiau cyfleusterau i'r anabl i alluogi pobl anabl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi.

- Mewn partneriaeth â chanolfannau hamdden GLL, cynhalion ni sesiynau i grwpiau anabl a menywod yn unig gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

- Darparu gwasanaeth llyfrgell symudol a gwasanaeth llyfrgell i bobl sy'n gaeth i'r tŷ i'r rhai nad modd iddynt fynd i'w llyfrgell leol.

- Gweithio gyda sefydliadau partner a datblygwyr blaenllaw i sicrhau bod mynediad yn cael ei ystyried yn rhan o raglenni gwaith. Cwblhawyd nifer o brosiectau allweddol yn ymarferol gan gynnwys Plotiau 2 a 3 Sgwâr Canolog ar gyfer Prifysgol Caerdydd a'r BBC

- Hyrwyddo ein canllaw Addasiadau Rhesymol i'r holl weithwyr (sydd yn ein Polisi Presenoldeb a Lles) i gefnogi addasiadau rhesymol i weithwyr yn y gweithle

- Parhau â'n haelodaeth ymbarél o 'Gyflogwyr i Ofalwyr', gan sicrhau y gall ein gweithwyr gael gafael ar wasanaethau cymorth

Amcan 3 - Cynorthwyo ymgynghoriad dinasyddion ehangach ac ymgysylltu â'r Cyngor a'i benderfyniadau

Eleni rydym wedi gwneud y canlynol...

- Ymgynghori â sefydliadau, grwpiau cymunedol, unigolion a Rhwydweithiau Cydraddoldeb Gweithwyr Cyngor Caerdydd wrth ddatblygu ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

- Ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau drwy Banel Dinasyddion Caerdydd, y Cyngor Ieuenctid, Fforymau 50+ Caerdydd, Clwb BYDDAR Caerdydd ('Deaf Hub Wales' erbyn hyn) a'n Partneriaid Trydydd Sector. Gwnaethom hefyd gynnal nifer o ymgynghoriadau a digwyddiadau ymgysylltu mewn lleoliadau cymunedol ledled y ddinas, gan gynnal mentrau wedi'u targedu ar gyfer pobl ifanc, trigolion BAME a thrigolion yr Arc Ddeheuol.

- Gweithio tuag at gyflawni ein hymrwymiad i Siarter BSL Cymdeithas Fyddar Prydain. Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, ymgynghorodd gwahanol gyfarwyddiaethau â chymuned fyddar Caerdydd yn rheolaidd drwy fforymau rheolaidd.

- Cynnal ein harolwg blynyddol Holi Caerdydd gan roi cyfle i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd rannu eu profiadau o wasanaethau cyhoeddus, o ran profiadau cadarnhaol a ble y gellid gwella pethau.

- Datblygu Arolwg Disgyblion ar Ddinas sy'n Dda i Blant a gwblhawyd gan dros 5000 o ddisgyblion o bob oed ledled Caerdydd, gan greu gwaelodlin ar gyfer barn pobl ifanc am eu hawliau ledled y ddinas.

- Cynorthwyo ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb Gweithwyr (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol+ (LHDT+), pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME), Gofalwyr, Merched ac Anabledd) i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau.

- Gweithio gyda ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb Gweithwyr (BAME, Gofalwyr, Anabledd, LHDT+ a Merched) i ddatblygu a chynnig Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Menopos, Rhagfarn Ddiarwybod a Micro-ymosodedd.

- Cefnogi Cyngor 3ydd Sector Caerdydd a Diverse Cymru i ymgynghori ac ymgysylltu â grwpiau heb eu cynrychioli'n ddigonol ar ein rhan

- Ymgysylltu'n benodol â chymunedau BAME ynghylch ailgomisiynu gofal cartref lleol, a chefnogodd aelodau etholedig BAME swyddogion i gyrraedd grwpiau cymunedol BAME sefydledig yn rhan o'r broses hon.

- Ymgysylltu â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i recriwtio tîm rheoli a grŵp staff ar gyfer cartref plant newydd

- Gweithio i sicrhau bod pawb â rhan mewn democratiaeth drwy sicrhau bod yr holl etholwyr yn cael gwybodaeth am etholiadau 2019 (Etholiad Senedd Ewrop ac Etholiad Senedd y DU)

- Gweithio i'w wneud yn haws i bawb gymryd rhan mewn democratiaeth drwy hyrwyddo pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a thrwy wella mynediad corfforol yn y gorsafoedd pleidleisio

Amcan 4 - Cynorthwyo pobl i herio triniaeth annheg

Eleni rydym wedi gwneud y canlynol...

- Cyflwyno hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb i'n gweithwyr.

- Rhoi gwybodaeth ar ein gwefan am droseddau casineb ac achosion o gasineb a sut y dylid rhoi gwybod am y rhain.

- Rhoi cymorth i dystion a dioddefwyr trosedd casineb.

- Darparu gwasanaethau cynghori o fewn nifer o'n hybiau cymunedol.

- Hyrwyddo ein Polisi Datrys (i weithwyr) a ddisodlodd y polisïau Cwynion, Bwlio ac Aflonyddu.

- Rhoi cyngor ac arweiniad ar herio triniaeth annheg i weithwyr a defnyddwyr gwasanaeth drwy ymholiadau dros y ffôn ac ar ein gwefan a'n mewnrwyd.

- Sicrhau bod uwch reolwyr ac aelodau'n ymgysylltu â'n Rhwydweithiau Cydraddoldeb Gweithwyr, er enghraifft drwy fynychu cyfarfodydd y Cyngor Gwaith.

- Sefydlu trefniadau rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cymunedol i helpu partneriaid sy'n gweithio yng nghymunedau'r ddinas i nodi arwyddion o berygl neu gamdriniaeth.

Amcan 5 - Cynorthwyo'r rhai a allai wynebu rhwystrau rhag cyflawni eu potensial

Eleni rydym wedi gwneud y canlynol....

- Cyhoeddi Strategaeth 'Cyflawni Canlyniadau Rhagorol' y Gwasanaethau Plant.

- Cytuno ar strategaeth gomisiynu newydd o'r enw 'Cartrefi Cywir, Cymorth Cywir' a bwysleisiodd naw blaenoriaeth gomisiynu i wella ein hymateb i anghenion ein Plant sy'n Derbyn Gofal

- Datblygu Gwasanaeth Cymorth a Chyngor i Deuluoedd Caerdydd newydd yn rhan o Gymorth Cynnar, gan alluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth wedi'u teilwra i fodloni eu hanghenion

- Datblygu gwefan Cymorth a Chyngor i Deuluoedd Caerdydd yn rhan o Gymorth Cynnar, i gynnwys gwybodaeth am wasanaethau a chymorth sydd ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd, rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc www.cardifffamilies.co.uk/cy/

- Recriwtio Ymgynghorwyr Anabledd Helpu Teuluoedd i roi cymorth arbenigol i deuluoedd gyda phlentyn sydd ag anabledd neu anghenion ychwanegol a gweithion ni gyda'r Bwrdd Iechyd i gynnig Arbenigwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol i roi cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl emosiynol

- Datblygu ymhellach ein cynnig Rhianta Caerdydd i gynnig ystod o raglenni rhianta i deuluoedd gyda phlant 0-18 oed ledled y ddinas

- Datblygu Strategaeth Camfanteisio ar Blant ac Oedolion ar y cyd i amddiffyn plant ac oedolion rhag y risg o niwed a cham-drin, gan ganolbwyntio sylw ar themâu newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â chamfanteisio ar blant ac oedolion, fel caethwasiaeth fodern.

- Gweithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo 'Addewid Caerdydd' a'i uchelgais i sicrhau bod mwy o bobl ifanc Caerdydd yn cael addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

- Hyrwyddo'r cynllun Prentis Corfforaethol Iau i bobl ifanc ledled y ddinas, gan gynnig prentisiaethau a rolau i hyfforddeion ym mhob rhan o'r Cyngor.

- Creu gweithdy hyfforddiant Mentora Pobl Ifanc i gefnogi gweithwyr sy'n gweithio gyda gweithwyr iau'r Cyngor.

- Lansio'r Strategaeth Gydgomisiynu gyntaf ar gyfer Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu gyda'n partneriaid (Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro)

- Gweithio i wella deilliannau addysgol disgyblion yn ein hysgolion gyda lefelau cyrhaeddiad gwell fel y dengys adroddiadau Estyn

- Parhau i weithredu ein rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif er mwyn gwella ysgolion ar draws y ddinas

- Parhau â'n gwaith i ddarparu gwasanaethau sy'n helpu i atal digartrefedd a bodloni anghenion tai dinasyddion sy'n agored i niwed

- Cynnig cyfleoedd hyfforddiant a lleoliad gwaith i blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn derbyn gofal ond sy'n gadael gofal y Cyngor drwy gynllun hyfforddi Dechrau Disglair

- Gweithiodd tîm ymweld y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol gyda defnyddwyr gwasanaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar wasanaethau a budd-daliadau a fyddai'n eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

- Gyda chymorth y Gronfa Gofal Integredig, darparodd a gosododd Teleofal Caerdydd dechnolegau cynorthwyol (am ddim) i hyrwyddo bywydau hirach, annibynnol gartref

- Llwyddodd Tîm Cyfleoedd Dydd y Cyngor i gefnogi tua 200 o unigolion i ail-gysylltu â'u cymuned, gan helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac allgáu cymdeithasol

- Parhau i hyrwyddo a chyflwyno'r cynnig gofal plant 30 awr am ddim ledled Caerdydd.

- Hyrwyddo ein Cyfeirlyfr Iechyd a Lles fel siop un stop o wasanaethau cymorth a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ystod eang o bynciau Iechyd a Lles a sicrhau bod hwn ar gael i weithwyr.

- Yn rhan o'n hymrwymiad tuag at ddod yn Gaerdydd, Ddinas sy'n Ystyriol o Blant, buom yn gweithio gyda phartneriaid i wneud Caerdydd yn ddinas lle mae lleisiau, anghenion, blaenoriaethau a hawliau plant a phobl ifanc wrth wraidd ein polisïau, ein rhaglenni a'n penderfyniadau

- Cael ein cydnabod fel Dinas Cyflog Byw ac wedi rhoi cymorth i sefydliadau a oedd yn dymuno dod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig.

- Gweithio gyda'n cydweithwyr ym Mwrdd Partneriaeth Caerdydd i wneud Caerdydd yn Ddinas sy'n Deall Dementia gyda bron i 800 o ddigwyddiadau sy'n Deall Dementia yn cael eu cynnal yn bennaf drwy ein Hybiau Cymunedol

- Lansio modiwl e-ddysgu Cyfeillion Dementia dwyieithog, a thrwy hynny daeth Caerdydd yr Awdurdod Lleol cyntaf yn y DU i wneud hyfforddiant Cyfeillion Dementia yn orfodol ar draws ei weithlu.

Amcan 6 - Mynd i'r afael â bylchau cyflog mewn perthynas â Nodweddion Gwarchodedig yn ein gweithlu

Eleni rydym wedi gwneud y canlynol....

- Lansio proses recriwtio awtomataidd newydd lle maeceisiadau'n ddienw i greu dull tecach a diduedd o recriwtio

- Gwella'r wybodaeth ar ein tudalen Swyddi a chynnwys logos ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb Gweithwyr a rhai sefydliadau rydym yn aelodau ohonynt, e.e. Stonewall, Disability Confident a'r Cyflog Byw

- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo manteision gweithio i Gyngor Caerdydd a byw yng Nghaerdydd i ddenu ceisiadau o gronfa dalent ehangach

- Hyrwyddo Pecyn Cymorth Gwerthuso Swyddi (sy'n galluogi cynnwys yr holl brosesau gwerthuso swyddi mewn un ddogfen) i weithwyr.

- Adolygu a hyrwyddo ein Polisi Cyflog a sicrhau bod hwn ar gael ar ein gwefan ac i bob gweithiwr.

- Cefnogi'r Siarter Hil yn y Gwaith er mwyn dangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael â rhwystrau y mae lleiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu o ran recriwtio a dilyniant.

- Cynnig ystod eang o brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi newydd â thâl ym mhob rhan o'r Cyngor.

- Hyrwyddo a gwella cyfleoedd cymwysterau prentisiaeth i bob gweithiwr er mwyn hyrwyddo hyfforddiant galwedigaethol.

- Diweddaru'r cyflog byw i weithwyr y Cyngor sy'n ennill y cyflog lleiaf.

- Gweithio gyda'n rhwydweithiau gweithwyr i nodi'r cymorth y mae ei angen ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cynnydd yn y Cyngor.

- Hysbysebu ein swyddi'n allanol, yn ogystal ag yn fewnol, i gefnogi ein hymdrechion i greu cynrychiolydd gweithlu o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

- Dod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd (achrediad Lefel 2)

Amcan 7 - Meithrin cymunedau cryf a chydlynol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu dathlu amrywiaeth Caerdydd.

Eleni rydym wedi gwneud y canlynol...

- Cefnogi Pride Cymru a phenwythnos Pride a gweithio gyda'r trefnwyr i sicrhau bod canol y ddinas ar gael i gynnal penwythnos Pride

- Parhau â'n haelodaeth o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall a chyflwyno cais i'w Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle

- Treialu cwrs Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Traws (cyn ei gyflwyno'n ehangach)

- Datblygu Gweithdy Hunaniaeth Rhywedd a Chyfeiriadedd Rhywiol gyda Stonewall a gynhaliwyd trwy gydol y flwyddyn i weithwyr.

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch trais domestig a chyfeirio ein gweithwyr at gymorth.

- Lansio model newydd o weithio lleol ar gyfer Diogelwch Cymunedol sy'n pwysleisio gweithio gyda chymunedau a phartneriaid lleol i nodi blaenoriaethau lleol ac i ddatblygu asedau lleol fel Hybiau Cymunedol a rhwydweithiau ac asiantaethau lleol fel pwyntiau cyswllt cyntaf

- Treialu gweithgor amlasiantaethol a weithiodd gyda thrigolion i fynd i'r afael â throseddau lleol

- Cynnal Cynhadledd Dinasoedd Cynhwysol, lle bu arweinwyr dinasoedd gwledydd Prydain ac Ewrop yn trafod sut i sicrhau bod dinasoedd yn parhau'n gynhwysol ac yn gydlynol.

- Cefnogi Diwrnod y Rhuban Gwyn i nodi Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod

- Rhoi cwestiynau yn Arolwg Holi Caerdydd ynghylch pa mor ddiogel mae pobl yn teimlo yn eu hardaloedd lleol a'u hargraff o drosedd.

- Hyrwyddo calendr diwylliannol o ddigwyddiadau a gwyliau crefyddol gyda staff drwy gyfathrebu mewnol.

- Dathlu ystod o ddigwyddiadau amrywiaeth a hyrwyddo'r rhain trwy gyfathrebu mewnol ac allanol.

- Mynychodd a chefnogodd ein haelodau amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol a chrefyddol cymunedol

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r mentrau a nodir yn yr adroddiad blynyddol hwn, cysylltwch â:

Tîm Cydraddoldeb
Ystafell 401
Neuadd y Sir
Bae Caerdydd
CF10 4UW

E-bost: timacydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

Cyngor Caerdydd
Adroddiad Amrywiaeth Gweithwyr 2020

Cynnwys

Adran	Cynnwys
1.	Cyflwyniad
2.	Dulliau Casglu Data
3.	Gweithlu'r Cyngor – Grŵp Ethnig a Hil
4.	Gweithlu'r Cyngor – Rhyw
5.	Gweithlu'r Cyngor – Oedran
6.	Gweithlu'r Cyngor – Nodweddion Eraill
7.	Caerdydd ar Waith
8.	Ymgeiswyr am Gyflogaeth
9.	Gwybodaeth am Hyfforddiant
10.	Gwybodaeth am Ddisgyblu
11.	Gwybodaeth am Adael
12.	Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

1. Cyflwyniad

Bob blwyddyn mae Gwasanaethau Pobl AD (GPAD) yn datblygu Adroddiad Cydraddoldeb yn seiliedig ar y gofyniad statudol i ddarparu data cydraddoldeb. O ddadansoddi'r data, datblygir camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Cyfrifoldeb y Rheolwr Gweithredol yw monitro cynnydd ar y camau gweithredu, yna caiff cynnydd a rhwystrau camau gweithredu GPAD eu cyflwyno i Dîm Rheoli'r GPAD. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor roi sylw dyledus i Ddyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010.

- Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl ganolog y mae'n ei chwarae o ran Dyletswyddau Cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010. Fel enghraifft o hyn,

- Rydym yn gweithio i **ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth** trwy'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyflogeion y mae'r GPAD yn eu datblygu a'u hadolygu i sicrhau bod pob gweithiwr yn cael ei drin ag urddas a pharch.

- Rydym yn **Hyrwyddo cyfle cyfartal** drwy'r broses recriwtio a dethol. Hysbysebir cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd hyrwyddo i'r holl gyflogeion ac mae proses ar waith i gynorthwyo rheolwyr a chyflogeion i weithredu addasiadau rhesymol. Mae Cytundeb Cyfunol y Statws Sengl hefyd wedi sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal, gan gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac annog system ddidwyll.

- Rydym yn **Meithrin cysylltiadau da** drwy gefnogi pum rhwydwaith cydraddoldeb cyflogeion i godi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb a chynnig cymorth a hyfforddiant ychwanegol i gyflogeion.

2. Dulliau Casglu Data

Mae'r Cyngor yn rheoli data cyflogeion trwy dair system weithredu:

a) **DigiGov**, y brif gronfa ddata AD ar gyfer rheoli gwybodaeth cyflogeion
b) **Talentlink**, y system recriwtio ar gyfer y cyfnod Hydref 2019 i Fawrth 2020 a'r system etifeddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Hydref 2019
c) **SAP**, y system gyflogres.

Mae gan bob cyflogai a delir gan y Cyngor gofnod ar DigiGov ac y gall ei ddefnyddio i reoli ei ddata personol eu hunan, gan gynnwys ei ddata monitro cydraddoldeb. Gall y Cyngor gynnal adroddiadau yn deillio o DigiGov, sy'n galluogi'r GPAD i ymateb i ofynion newidiol y gweithlu.

Mae system recriwtio Talentlink yn rheoli ceisiadau am swyddi ac yn cynnwys ffurflen monitro cydraddoldeb, sy'n helpu'r GPAD i reoli proses ceisiadau am swyddi gwag ac i sicrhau ei bod yn deg a didwyll. Cymerir data o system Talentlink i gwblhau'r adran monitro cyflogeion ar destun ymgeiswyr sy'n gwneud cais o grwpiau nodweddion a ddiogelir. Mae Talentlink wedi caniatáu i GPAD ddatblygu a chofnodi gwybodaeth ychwanegol er mwyn gwella ymrwymiad y Cyngor i gyfle cyfartal ymhellach.

Rydym yn parhau i wella gallu ein systemau i gofnodi data cydraddoldeb. Rydym hefyd yn annog cyflogeion i ddefnyddio eu cofnod DigiGOV i ychwanegu gwybodaeth gydraddoldeb ychwanegol i gynorthwyo gyda gwaith monitro'r Cyngor.

3. Gweithlu'r Cyngor – Dadansoddi yn ôl Grwpiau Ethnig a Hil

Ar 31 Mawrth 2020, roedd y Cyngor yn cyflogi 13,311 o gyflogeion parhaol/dros dro. Cytunodd12,299 (92.40%) o'n 13,311 o gyflogeion parhaol/dros dro i ddatgelu eu hethnigrwydd i'r Cyngor, a alluogodd y dadansoddiad canlynol.

Cyfansoddiad Cyffredinol yn ôl Grŵp Ethnig

Mae cyfansoddiad y cyflogeion hyn yn ôl y categorïau ethnigrwydd a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2011 fel a ganlyn:

Grŵp Ethnig	Niferoedd
Arabaidd	1
Asiaidd-Bangladeshaidd	60
Asiaidd Prydeinig	114
Asiaidd-Indiaidd	61
Asiaidd Arall	32
Asiaidd-Pacistanaidd	73
Du Affricanaidd	85
Du Prydeinig	109
Du Caribïaidd	25
Du Arall	15
Tsieinëeg / Dwyrain Pell Arall	9
Tsieinëeg / Dwyrain Pell Prydeinig	19
Tsieinëeg / Dwyrain Pell Tsieinëeg	10
Tsieinëeg / Dwyrain Pell Siapaneaidd	2
Tsieinëeg / Dwyrain Pell Corëeg	2
Tsieinëeg / Dwyrain Pell Fietnameg	3
Cymysg Arall	72
Hil Cymysg Gwyn ac Asiaidd	39
Hil Cymysg Gwyn a Du Affricanaidd	53
Hil Cymysg Gwyn a Du Caribïaidd	77
Heb Ddatgelu	1011
Ethnigrwydd Arall	37
Gwyn Prydeinig	10307
Gwyn Seisnig	36
Gwyn Ewropeaidd	170
Gwyn Sipsi / Teithiwr	1
Gwyn Gwyddelig	57
Gwyn Arall	88
Gwyn Albanaidd	9
Gwyn Cymreig	734
Cyfanswm	**13311**

Cyfansoddiad yn ôl Grŵp Hil, a Chymhariaeth â Chyfrifiad 2011
Mae'r tabl isod yn cyfuno'r grwpiau ethnig uchod mewn Grŵp Hil ehangach.

Caiff y grwpiau Asiaidd, Du, Cymysg a Grwpiau ethnig eraill eu cyfuno i Grŵp Hil cyffredinol unigol. Fodd bynnag, oherwydd nifer sylweddol y gwahanol grwpiau ethnig Gwyn, mae'r rhain wedi cael eu harddangos yn unigol. Mae grwpiau ethnig Gwyn Prydeinig, Gwyn Cymreig, Gwyn Albanaidd yn cael eu cyfuno i gategori cyffredinol Gwyn Prydeinig, tra caiff y categorïau eraill Gwyddelig, Gwyn Ewropeaidd, Gwyn Sipsiwn/Teithwyr a Gwyn Arall eu nodi ar wahân.

Mae hyn yn ein galluogi i arddangos grŵp ethnig ein holl gyflogeion nad ydynt yn uniaethu ag ethnigrwydd Gwyn Prydeinig. Mae'r tabl isod yn cymharu cyfansoddiad ein gweithlu yn ôl grŵp hil â phoblogaeth gyffredinol Caerdydd a Chymru.

	Gweithwyr		**Cyfrifiad 2011** %	
Grŵp Hil	%	Rhif	Caerdydd	Cymru
Asiaidd	2.76%	340	8.00%	2.20%
Du	1.90%	234	2.40%	0.60%
Tsieineaidd / Dwyrain Pell	0.37%	45	1.20%	0.40%
Ethnigrwydd Cymysg	1.96%	241	2.90%	1.00%
Arall	0.31%	38	2.00%	0.50%
Gwyn Sipsi / Teithiwr	0.01%	1	0.20%	0.10%
Gwyn Gwyddelig	0.46%	57	0.70%	0.50%
Gwyn Arall	0.72%	88	3.50%	1.80%
Gwyn Ewropeaidd	1.38%	170		
Gwyn Prydeinig *	90.13%	11085	80.00%	93.20%

* Yn cynnwys Gwyn Cymraeg, Gwyn Albanaidd a Gwyn Saesnig

Mae'r tabl yn dangos mai canran y bobl sy'n huniaethu ag ethnigrwydd mewn Grŵp Hil nad yw'n Wyn Prydeinig yw 9.87%.

Mae 1,012 o gyflogeion nad ydynt wedi datgelu eu hethnigrwydd yn gweithio yn y Cyfarwyddiaethau canlynol:

Cyfarwyddiaethau	**Cyfanswm**
DATBLYGU ECONOMAIDD	83
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - CANOLOG	38
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - YSGOLION	723
LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU CYFREITHIOL	1
TAI A CHYMUNEDAU	25
CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD	93
ADNODDAU	17
GWASANAETHAU CYMDEITHASOL	32
CYFANSWM	**1012**

Ethnigrwydd Gweithlu Parhaol/Dros Dro yn ôl Cyfarwyddiaeth

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth yn deillio o ddadansoddiad a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2020 sy'n dangos yr amrywiaeth yng nghyfansoddiad y cyflogeion parhaol/dros dro sy'n adnabod fel "Gwyn Prydeinig" a'r rhai nad ydynt, mewn saith Cyfarwyddiaeth sefydliadol y Cyngor (caiff Addysg a Dysgu Gydol Oes ei rannu'n swyddi mewn ysgolion a swyddi cyfarwyddiaeth a gyflogir yn ganolog).

Cyfarwyddiaethau	Gwyn Prydeinig	Grŵp Hil Arall
DATBLYGU ECONOMAIDD	77.10%	22.90%
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - CANOLOG	83.29%	16.71%
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - YSGOLION	82.34%	17.66%
LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU CYFREITHIOL	89.22%	10.78%
TAI A CHYMUNEDAU	84.62%	15.38%
PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU	90.28%	9.72%
CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD	85.02%	14.98%
ADNODDAU	87.10%	12.90%
GWASANAETHAU CYMDEITHASOL	87.07%	12.93%

Sylwch – mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm o 12,299 o gyflogeion parhaol/dros dro sydd wedi datgelu eu hethnigrwydd.

Grŵp Rhyw a Hil

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth o ddadansoddiad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020 sy'n dangos cyfran y cyflogeion ym mhob grŵp hil sy'n gweithio i'r Cyngor, yn ôl eu rhyw.

Grŵp Hil	Benyw		Gwryw		
	Nifer	%	Nifer	%	Cyfanswm
Asiaidd	285	83.82%	55	16.18%	340
Du	145	61.97%	80	38.03%	234
Tsieineaidd / Dwyrain Pell	39	86.67%	7	13.33%	45
Ethnigrwydd Cymysg	163	67.63%	73	32.37%	241
